YSGOL PENRHYNCOCH

Erbyn hyn mae'r timoedd pêl droed, yr hoci a'r bêl rwyd wedi cael cyfle i ystwytho dipyn ers gwyliau'r haf. Cymrodd y bechgyn ran yng nghystadleuaeth pêl droed pum bob ochr yr Urdd yn ddiweddar a chafwyd gêm gyfeillgar yn erbyn Ysgol Cwmpadarn cyn dechrau o ddifri ar foreau Sadwrn yng nghyngrair y 'Mini Minors'. Cafodd y merched hefyd gyfle i ymarfer drwy chwarae gêm gyfeillgar o hoci yn erbyn Ysgol Rhydypennau a phêl rwyd yn y Borth. Braf oedd gweld pawb yn mwynhau a chymysgu'n hapus heb boeni am ennill na cholli.

Ar ddydd Mercher, Hydref 19eg, cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch a phob plentyn yn cymryd rhan ar y llwyfan. Drwy gyfrwng pennill, cân a darlleniad, gwelwyd bod yr Wyl Ddiolchgarwch wedi newid dipyn yn nhreigl y blynyddoedd ond bod yr angen i ddiolch am gynifer o fendithion yn dal mor bwysig ag erioed. Offrymwyd y fendith gan y Ficer, Y Parch David Francis. Yn ystod y gwasanaeth gwnaed casgliad arbennig tuag at Apêl y Sganiwr i Ysbyty Bronglais a thestun diolch yw cael cyhoeddi i'r swm o dros £70 gael ei dderbyn. Ein diolch diffuant i bawb a sicrhaodd gasgliad sylweddol at achos lleol gwir deilwng.